# Natur Drws Nesaf

## Yswiriant ar gyfer grwpiau lleol

Nid yw hwn yn gyngor yswiriant ffurfiol.

Swm bach o arian rydych chi'n ei dalu i gwmni yswiriant yw yswiriant. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, dylai'r cwmni yswiriant eich helpu.

Mae gan yswiriant ddau nod.

- Mae'n eich helpu chi, staff, a gwirfoddolwyr os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.
- Mae'n helpu'r cyhoedd os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Ond ni fydd yswiriant ar ei ben ei hun yn atal pethau rhag mynd o chwith. Rhaid i chi ddechrau gydag 'asesiad risg' a 'rheoli risg'. Mae mwy o wybodaeth am asesiadau risg ar gael yn ein hadnoddau eraill.

Efallai na fydd angen i chi gael yswiriant. Pan fydd eich grŵp yn dechrau am y tro cyntaf, gallwch ddweud wrth bawb eu bod yn gweithio ar eu risg eu hunain. Ond mae angen i chi gynnal asesiad risg priodol o hyd, ac efallai y byddwch yn wynebu anhawster yr un fath os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Efallai y bydd yswiriant sefydliad arall yn eich yswirio eisoes. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio a ydych wedi'ch diogelu, a byddant yn gofyn am gael gweld eich asesiad risg.

Efallai y bydd eich cyngor lleol yn rhoi yswiriant i chi. Siaradwch â nhw i ddarganfod beth sydd arnyn nhw ei angen, a beth fyddant yn ei gynnwys.

Mae gwahanol fathau o yswiriant. Defnyddiwch y rhestr wirio yma i'ch helpu i ddeall yr hyn y gallech fod ei angen:

- Oes gennych chi wirfoddolwyr, neu a ydych chi'n rhyngweithio â'r cyhoedd? Bydd angen 'yswiriant atebolrwydd cyhoeddus'.

- Oes gennych chi weithwyr? Bydd arnoch chi angen 'yswiriant atebolrwydd cyflogwr'.
- Oes gennych chi geir neu gerbydau eraill? Bydd arnoch chi angen 'yswiriant modur'.

Mae'n llai tebygol y bydd arnoch chi angen y mathau eraill yma o yswiriant:

- Oes gennych chi fwrdd ymddiriedolwyr? Efallai y bydd angen 'atebolrwydd ariannol a gweinyddol'.
- Oes gennych chi adeiladau a chynnwys sydd angen eu diogelu? Bydd angen 'yswiriant difrod materol' neu 'yswiriant adeiladau a chynnwys'.
- Ydych chi'n llogi eich eiddo i grwpiau eraill? Bydd angen 'yswiriant atebolrwydd llogwr' arnoch chi.
- Ydych chi'n delio ag arian? Gallech fod angen 'yswiriant arian / ariannol'.
- All eich sefydliad weithredu os caiff eich adeilad ei ddifrodi? Efallai y bydd angen 'yswiriant tarfu ar fusnes' arnoch chi.
- Oes arnoch chi angen cymorth cyfreithiol? Byddai arnoch angen 'yswiriant costau cyfreithiol'.

Mae gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Mudiadau Gwirfoddol (NCVO) lawer o help yma: https://knowhow.ncvo.org.uk/organisation/operations/insurance.

Cofiwch: mae'n eithaf syml sefydlu'ch yswiriant, ac mae'n weddol rad yn aml. Gall fod yn ofyniad cyfreithiol i gael yswiriant, felly peidiwch â cheisio ei osgoi.